# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

# Y BIL AWDURDODAU CYHOEDDUS (TWYLL, GWALLAU AC ADENNILL)

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("Rh.S.") 29.2. Mae Rh.S. 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Ionawr 2025. Mae'r Bil ar gael yn: Y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)

## Amcanion Polisi

3. Mae'r Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) yn fenter drawslywodraethol a noddir gan Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PFSA), Swyddfa'r Cabinet yn Rhan 1 o'r Bil a chan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn Rhan 2 o'r Bil.

    a. Amcanion polisi PSFA (o fewn Swyddfa'r Cabinet) yw atal twyll yn erbyn awdurdodau cyhoeddus ac atal gwneud taliadau gwallus gan awdurdodau cyhoeddus a hefyd adennill arian a delir gan awdurdodau cyhoeddus oherwydd twyll a gwallau.

    b. Amcanion polisi DWP yw nodi a mynd i'r afael â gordaliadau sy'n deillio o dwyll a/neu wallau yn y system nawdd cymdeithasol a gwella gallu DWP i adennill dyled oddi wrth y rhai nad ydynt bellach yn cael budd-daliadau neu enillion Talu Wrth Ennill ("PAYE").

## Crynodeb o'r Bil

4. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau i nodi, atal a rhwystro twyll a gwallau yn y sector cyhoeddus yn well, a galluogi arian (dyled) sy'n ddyledus i'r trethdalwr i gael ei adennill yn well pan fo arian cyhoeddus wedi'i gaffael neu ei ordalu drwy dwyll.

5. Mae'r Bil yn cynnwys mesurau diogelu, mecanweithiau adrodd a darpariaethau goruchwylio i sicrhau bod y pwerau yn cael eu defnyddio'n briodol, yn gymesur ac yn effeithiol. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer goruchwylio ymchwiliadau a gynhelir gan DWP a PSFA i sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau ac unrhyw godau ymarfer perthnasol.

6. Mae'r Bil yn cynnwys:

    a. mesurau i roi pwerau i Uned Gorfodi PSFA ymchwilio i dwyll yn erbyn cyrff y sector cyhoeddus a mynd i'r afael ag ef (Rhan 1);

b. mesurau i gefnogi DWP i nodi rhagor o daliadau anghywir i leihau twyll a gwallau a gwella adennill dyled (Rhan 2);

c. darpariaethau cyffredinol (Rhan 3).

**Crynodeb o'r Bil mewn perthynas â PSFA**

7. Mae Rhan 1 o'r Bil hwn yn rhoi pwerau i Weinidog Swyddfa'r Cabinet ("y Gweinidog") (a arferir yn ymarferol drwy PSFA) fynd i'r afael â thwyll yn erbyn y sector cyhoeddus ac mae'n cyflwyno trefniadau i oruchwylio'r pwerau hyn er mwyn ysgogi eu defnydd effeithiol a sicrhau nad ydynt yn cael eu camddefnyddio. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn defnyddio'r pwerau hyn ar ran adrannau a chyrff cyhoeddus eraill. Bydd hyn yn golygu bod mwy o arian yn cael ei adennill a bod camau mwy cadarn yn cael eu cymryd yn erbyn y rhai sy'n cyflawni twyll yn erbyn y sector cyhoeddus, a bydd yn atal mwy o dwyllwyr posibl.

8. Bydd y mesurau yn Rhan 1 o'r Bil:

   a. Yn darparu i PSFA ddod yn gorff statudol ac yn galluogi'r Gweinidog i drosglwyddo swyddogaethau yn y Bil (yn unol â'r pwerau isod) i'w harfer gan PSFA.

   b. Yn rhoi pwerau rhannu a chasglu gwybodaeth i Swyddogion Awdurdodedig ("AOs") o fewn PSFA. Mae hyn yn cynnwys: pŵer i orfodi cynhyrchu gwybodaeth gan ddeiliaid gwybodaeth; rhoi cosb sifil ariannol am fethiant i gydymffurfio â'r cais am wybodaeth; a derbyn, lledaenu a rhannu data am droseddau rhwng adrannau'r llywodraeth.

   c. Yn rhoi pwerau i Ymchwilwyr Awdurdodedig ("AIs") wneud cais i'r llys am: warantau chwilio a gorchmynion cynhyrchu a phwerau i atafaelu a chadw tystiolaeth, megis dogfennau a dyfeisiau electronig; mynd i mewn i fangre gyda gwarant a roddwyd gan lys; a chwilio am dystiolaeth a'i hatafaelu a delio â'r gadwyn dystiolaeth wedi hynny.

   d. Yn galluogi'r Gweinidog i adennill colled adferadwy a nodwyd drwy ymchwiliad PSFA. At y dibenion hyn, nodir colled adferadwy fel:

      i. taliad a wnaed oherwydd twyll neu wallau y mae'r Gweinidog wedi'i nodi neu ei gadarnhau yn ystod ymchwiliad mewn perthynas ag amheuaeth o dwyll yn erbyn awdurdod cyhoeddus, y mae gan awdurdod cyhoeddus hawl i'w adennill; neu

      ii. unrhyw swm arall y mae gan awdurdod cyhoeddus hawl i'w adennill mewn perthynas â thwyll.

   Caiff y Gweinidog arfer y pwerau adennill i adennill swm adferadwy naill ai gyda chydsyniad y person atebol neu yn dilyn dyfarniad o blaid y Gweinidog. Caiff y Gweinidog ddefnyddio'r pwerau adfer hefyd i adennill cosb sifil o dan Bennod 5 ond dim ond ar ôl i'r amser ar gyfer apelio'r gosb fynd heibio heb i apêl gael ei chyflwyno neu pan fo apêl yn erbyn cosb wedi'i phenderfynu yn derfynol.

e. Mae'r pwerau adennill yn cynnwys y gallu i adennill swm o'r fath yn uniongyrchol o enillion unigolyn, drwy Orchymyn Didynnu o Enillion, ac yn uniongyrchol o gyfrifon banc drwy Orchmynion Didynnu Uniongyrchol mewn Cyfandaliad (“LSDDOs”) ar gyfer symiau penodedig a Gorchmynion Didynnu Uniongyrchol Rheolaidd (“RDDOs”) ar gyfer didyniadau rheolaidd.

f. Yn cyflwyno fframwaith o gosbau sifil am dwyll y gall PSFA eu gosod fel mecanwaith amgen i ddelio ag achosion o dwyll drwy erlyniad troseddol.

g. Yn creu swyddogaeth oruchwylio newydd ar gyfer defnyddio'r pwerau yn y Bil i helpu i feithrin ymddiriedaeth yn y Llywodraeth ac i sicrhau'r defnydd cywir a phriodol o'r pwerau.

**Crynodeb o'r Bil mewn perthynas â DWP**

9. Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau newydd i DWP nodi a mynd i'r afael â gordaliadau sy'n deillio o dwyll a/neu wallau yn y system nawdd cymdeithasol. Bydd yn gwneud darpariaeth hefyd i wella gallu DWP i adennill dyled oddi wrth y rhai nad ydynt bellach yn cael budd-daliadau neu mewn enillion Talu Wrth Ennill (“PAYE”). Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth:

    a. I gyflwyno diwygiadau i'r pwerau ymchwilio presennol y mae DWP yn eu defnyddio fel mater o drefn. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau i orfodi gwybodaeth gan bob deiliad gwybodaeth trydydd parti (yn ddarostyngedig i esemptiadau) i gefnogi ymchwiliadau troseddol, gan greu un fframwaith cyfreithiol clir. Mae'r Bil yn dod ag unrhyw daliad sy'n gysylltiedig â DWP (gan gynnwys grantiau neu dwyll sy'n gysylltiedig â rhifau Yswiriant Gwladol), nid budd-daliadau yn unig, i mewn i gwmpas ymchwiliad troseddol Mae'n gwneud darpariaeth hefyd i ganiatáu i DWP wneud a chael ceisiadau drwy borth digidol.

    b. Yn ei gwneud yn ofynnol i fanciau a sefydliadau ariannol eraill archwilio eu setiau data eu hunain i helpu i nodi lle y gallai taliadau budd-dal anghywir fod yn cael eu talu i helpu i benderfynu a yw'r rheolau cymhwysedd yn cael eu bodloni, drwy'r Mesur Dilysu Cymhwysedd newydd (“EVM”). Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer mesurau diogelu pwysig ar y pwerau hyn, gan gynnwys y gofyniad i ymgynghori ar God Ymarfer statudol a'i gyhoeddi yn ogystal â dyletswydd i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi person annibynnol i oruchwylio'r defnydd o'r pwerau.

    c. Yn darparu pwerau newydd i ymchwilwyr twyll difrifol a threfnedig DWP wrth ymchwilio i droseddau difrifol a threfnedig. Mae'r pwerau hyn yn darparu i ymchwilwyr hyfforddedig ac awdurdodedig: wneud cais i lys am warantau chwilio ac atafaelu a chael gorchmynion cyflwyno; mynd i mewn i fangre a chwilio'r fangre gyda gwarant ac i atafaelu tystiolaeth; defnyddio grym rhesymol, os oes angen, wrth arfer pwerau o'r fath; a gwneud cais i'r llys i ddelio â thystiolaeth a atafaelwyd yn briodol.

    d. Yn ehangu pwerau presennol i adennill dyledion i alluogi dyled i gael ei hadennill yn fwy effeithiol a theg oddi wrth y rhai nad ydynt yn cael budd-

daliadau neu enillion PAYE sy'n gallu gwneud ad-daliadau, ond nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Mae hyn yn gwneud pwerau DWP i adennill dyledion yn fwy cydnaws â phwerau CThEF 4 a'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer adennill dyled yn uniongyrchol o gyfrifon banc drwy RDDOs a LSDDOs heb orchymyn llys. Mae'n gwneud darpariaeth hefyd i anghymhwyso person rhag dal trwydded yrru, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y llys a lle nad yw trwydded y person atebol yn hanfodol i'w allu i ennill bywoliaeth neu pan na fyddai atal trwydded yrru dros dro yn briodol.

e. Newid i'r drefn Cosb Weinyddol ("Ad Pen") fel y gellir ei chynnig ar gyfer ystod ehangach o daliadau DWP, nid budd-daliadau yn unig, a dileu colli budd-dal pan dderbynnir Cosb Weinyddol gan hawlydd budd-dal.

f. Darparu i DWP benodi "person annibynnol" i gynnal adolygiadau o'r swyddogaethau o dan adrannau 109A-G o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992, sy'n cael ei diwygio gan y Bil hwn.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Rwyf yn credu bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r cymalau a nodir isod, i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig.

**Cymalau 1 a 2:**

Mae cymalau 1 a 2 yn darparu i'r Gweinidog ymchwilio, adennill a gorfodi mewn cysylltiad â thwyll a chefnogi awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig) mewn perthynas â thwyll yn erbyn yr awdurdodau cyhoeddus hynny neu wallau ganddynt (y swyddogaethau craidd).

Caiff y Gweinidog arfer y pŵer i ddarparu cymorth ar unrhyw adeg ond ni chaiff arfer y pwerau eraill ond pan ofynnir iddo wneud hynny gan ac ar ran yr awdurdod cyhoeddus perthnasol.

**Cymal 5**

Mae Cymal 5 yn rhoi pŵer i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig) rannu gwybodaeth â'r Gweinidog i'w cynorthwyo i arfer y swyddogaethau craidd.

**Cymal 6**

Mae cymal 6 yn galluogi Uwch-swyddogion Gweithredol (neu swyddog gradd uwch) i wneud cais i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio am awdurdodiad i ddod o hyd i ddata cyfathrebu yn ystod ymchwiliad troseddol a gynhelir wrth arfer y swyddogaethau craidd yng nghymal 1 o'r Bil. Gellid cynnal ymchwiliad o'r fath i adennill arian ar gyfer awdurdod Cymreig datganoledig.

**Cymalau 7, 9 ac Atodlen 1:**

Mae cymal 7 ac Atodlen 1 yn rhoi pwerau amrywiol i'r Gweinidog a gynhwysir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, gan gynnwys pwerau chwilio ac atafaelu, at ddibenion cynnal ymchwiliad i amheuaeth o dwyll fel rhan o'r swyddogaethau craidd. Gellid defnyddio'r pwerau hyn i adennill arian sy'n ddyledus i awdurdod Cymreig datganoledig.

**Cymal 10:**

Mae cymal 10 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig, gytuno bod y Gweinidog yn cadw rhywfaint, neu'r cyfan, o'r arian sy'n cael ei adennill ar ran yr awdurdod hwnnw.

**Cymalau 64 a 65:**

Mae cymalau 64 a 65 yn darparu ar gyfer adolygiad annibynnol o arfer swyddogaethau gan y Gweinidog o dan Ran 1 o'r Bil. Mae llawer o'r swyddogaethau hynny'n arferadwy mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig) ac mae rhai yn perthyn yn agos i swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus o dan Ran 1.

**Cymal 67**

Mae cymal 67 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rhannu gwybodaeth sy'n ategu unrhyw gymal yn Rhan 1 o'r Bil sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth gan gynnwys cymal 5 (gweler uchod).

**Cymal 69 ac Atodlen 2:**

Mae Cymal 69 ac Atodlen 2 yn rhoi PSFA ar sail statudol ac yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r Gweinidog o dan y Bil i PSFA. Fel y nodir uchod, mae rhai o'r swyddogaethau hynny (yn enwedig y swyddogaethau craidd) yn arferadwy mewn perthynas â awdurdodau Cymreig datganoledig.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

11. Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod angen LCM ar gyfer cymalau 1, 2, 7 (ac Atodlen 1), 9, 64, 65 a 69 ac Atodlen 2.

12. Er hynny, mae gwahaniaeth safbwynt mewn perthynas â'r angen am gydsyniad ar gyfer cymalau 5, 6 a 67. Yn fy marn i, mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig, fel y nodir ym mharagraff 10 uchod. O ganlyniad, yn unol â Rheol Sefydlog 29, mae angen cydsyniad y Senedd.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)**

13. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill). Mae'r darpariaethau yn y Bil yn gyson â ffocws

Llywodraeth Cymru ar ddiogelu cronfeydd cyhoeddus rhag colledion o bob math. Mae'r Bil yn cyfrannu at ystod o nodau Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol drwy gefnogi:

- Cymru lewyrchus - helpu i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chyrff cyhoeddus yng Nghymru rhag twyll, gwallau ac adennill.
- Diogelu cronfeydd cyhoeddus - i sicrhau bod cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol yn elwa ar y gwasanaethau cyhoeddus y mae'r cronfeydd hynny'n eu cefnogi i ddarparu ansawdd bywyd da mewn cymunedau mwy diogel.
- Cefnogi pob un o'r cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf - o'r llywodraeth ganolog i Awdurdodau Lleol a Chyrff Iechyd - i atal twyll ac adennill cronfeydd yn sgil twyll a/neu wallau.

14. Mae Strategaeth Dwyll Llywodraeth y DU 2022-24 yn nodi mai twyll yw'r drosedd fwyaf cyffredin o bell ffordd a'i fod bellach yn cyfrif am dros 40% o droseddau yn y DU, fel yr adroddwyd gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Er hynny, bernir mai trosedd nad adroddir digon arni yw hon. Dywedodd Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) Llywodraeth y DU yn 2023 mai dim ond tua 1% o bersonél yr heddlu oedd yn cael eu neilltuo i waith mynd i'r afael â thwyll, er bod twyll yn cyfrif am 41% o'r holl droseddau yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2022 (Trydedd Adroddiad a Deugain Sesiwn 2022-23). Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn amcangyfrif mai dim ond 13% o achosion sy'n cael eu hadrodd i Action Fraud. Mae'r Adroddiad PAC yn nodi bod llai nag 1% o achosion sy'n dod i law Action Fraud yn arwain at ganlyniad cyfiawnder troseddol lle mae troseddwr yn cael ei gyhuddo neu ei erlyn am y drosedd.

15. Nid yw cyrff cyhoeddus yn ddiogel rhag twyll neu wallau. Yn wir, gall rhai swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus eu gwneud yn darged ar gyfer ymosodiad twyllodrus cydgysylltiedig (yn enwedig budd-daliadau, gwasanaethau ac awdurdodau sy'n rhoi grantiau). Mae PSFA yn amcangyfrif colledion rhwng £33bn a £59bn mewn twyll a gwallau yn y sector cyhoeddus bob blwyddyn.

16. Mae darparu pwerau i PSFA i ymchwilio, adennill, gorfodi mewn cysylltiad â thwyll a chefnogi awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â thwyll yn erbyn yr awdurdodau cyhoeddus hynny, neu wallau ganddynt, yn ychwanegiad i'w groesawu o gofio gallu cyfyngedig heddluoedd yng Nghymru i fynd i'r afael â'r materion hyn ac adennill cronfeydd cyhoeddus. Mae darparu pwerau yn fanteisiol i awdurdodau Cymreig datganoledig gan fod hyn yn cynnig cyfle pragmataidd, gwerthfawr a chost-effeithiol i gryfhau ymatebion i dwyll a gwallau, a thrwy hynny ddiogelu cronfeydd cyhoeddus Cymru yn well drwy adennill mwy effeithiol.

17. Mae'r Bil yn ymwneud â materion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl (yn fwyaf arbennig canfod, atal ac ymchwilio i droseddau) ac felly mae llwybr Senedd y DU yn ffordd briodol o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir yn y ffordd fwyaf effeithiol yn y maes hwn. Byddai peidio â chefnogi'r darpariaethau arfaethedig yn peri anfantais i awdurdodau Cymreig

datganoledig ac yn gwadu cyfleoedd ychwanegol iddynt adennill cronfeydd cyhoeddus.

**Goblygiadau ariannol**

18. Bach iawn yw'r goblygiadau ariannol i awdurdodau Cymreig datganoledig mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer oherwydd y canlynol:

  a. Cyfrifoldeb y Gweinidog yw cyllid ar gyfer gweithgareddau craidd PSFA; nid oes unrhyw gyfraniad gofynnol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

  b. Ni fydd effaith ariannol ar awdurdodau Cymreig datganoledig ond i'r graddau y gallent gytuno y caiff y Gweinidog gadw cyfran o unrhyw gronfeydd sy'n cael eu hadennill. Mater i awdurdodau Cymreig datganoledig fydd penderfynu beth sy'n swm cymesur i ganiatáu i'r Gweinidog ei gadw, sy'n cynnig gwerth am arian o ran cost adennill.

**Casgliad**

Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar ddiogelu arian cyhoeddus rhag twyll a gwallau. Felly, rwyf yn argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Jane Hutt**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
Chwefror 2025